

Targed	Sut rydych chi wedi gweithio ar hwn?	Esiaml
“Peth gwallau yn y cyfeirnod yn y llyfryddiaeth, e.e. lleoliad gwasg. Gweler Llawlyfr Cyfeirnod Havard.”	Edrychais ar y llawlyfr yn fanwl.	Edrych ar y rhestr cyfeirnod.
Gwirio iaith.	Defnyddiais Cysill a darllenais dros fy ngwaith yn ofalus.	Yr aseiniad cyfan.

Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Arwain y Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Adfyfyriwch yn feirniadol ar gynnydd wrth gynllunio, paratoi ac addysgu gwersi sy’n ymgorffori egwyddorion pedagogaid

Rhan 1

Templed Profiad Proffesiynol 1:	
Safon Addysgeg	Asesu ar gyfer dysgu
Beth wnaethoch chi a pham?	Yn ystod yr wythnos arsylwi lleoliad ysgol nodais unrhyw strategaethau AagD (asesu ar gyfer dysgu) defnyddiodd fy mentor dosbarth. Yn y bôn, mae AagD yn ymwneud â darganfod lle mae’r dysgwr wedi’i gyrraedd yn ei dysgu, esbonio’r hyn mae angen anelu at ac yn bwysicaf dangos sut i’w gyrraedd. Defnyddiodd fy mentor dosbarth strategaethau effeithiol megis cwestiynu ar lafar (agored neu gaeedig), meini prawf llwyddiant (MAC-mae angen cofio), adborth ysgrifenedig (dau peth da a tharged) ac asesu cyfoedion yn rheolaidd. Gweithiodd y strategaethau yma’n wych efo’r plant. Ar ôl yr wythnos arsylwi treialais wahanol strategaethau AagD megis cynllunio cwestiynau o flaenllaw, creu MAC ar y cyd gyda’r dysgwyr, hunanasesu trwy ddefnyddio emoji (hapus gyda’r gwaith neu wedi drysu) ac adborth adeiladol (defnyddio bocs melyn iddyn nhw ailddrafftio). Erbyn diwedd cyfnod PAP (profiad addysgu proffesiynol), cyflwynodd pawb ar fy ngwrs beth darganfyddon

	nhw wrth dreialu strategaethau AagD. O fy mhrofiad personol ac wrth ymchwilio darganfyddais bod asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu os defnyddir yn gyson ac effeithiol. Ymhellach, darganfyddais bod asesu parhaol yn rhan hanfodol a blaenoriaeth i ddysgu, oherwydd yn ôl ymchwil mae asesu yn rheolaidd yn cael effaith cadarnhaol ar gynnydd y dysgwyr yn hytrach na asesu ar ddiwedd wythnos neu dymor ar ffurf prawf. Sicrheais wnes i ddarparu adborth cefnogol ac adeiladol ar lafar yn barhaol er mwyn i'r plant gwybod lle maen nhw yn eu dysgu a sut i wella. Yn gysylltiedig, nodais ar ddiwedd pob darn o waith y pethau da a mannau i wella er mwyn i'r plant gwybod sut i ddatblygu a gwneud cynnydd. I ailymweld a'r dysgu cynlluniais i'r plant asesu gwaith eu hunain neu eu cyfoedion. Roedden nhw'n defnyddio meini prawf llwyddiant i asesu'r gwaith a gwneud sylwadau ar lafar. Hefyd, fel dosbarth cynlluniom ni MPL ar y cyd ar gyfer bron pob tasg, roedd hyn yn ddefnyddiol i'r plant gwybod disgwyliadau'r dasg a chynnwys nhw yn y broses asesu. Roedd cwestiynu yn rhan naturiol o'r dysgu, a defnyddiais nifer o strategaethau megis cwis Kahoot, cwestiynau agored a chaeedig, byrddau gwyn a ffonio ffrind er mwyn sicrhau dealltwriaeth y plentyn. I asesu'r dasg sgil Saesneg 'sut ysgrifennu sgrïpt' gofynnais gwestiynau amrywiol i brofi dealltwriaeth y plant ac i ail-ymweld â dysgu'r wythnos flaenorol (ysgrifennu sgrïpt Cymraeg). O ganlyniad i'r cwestiynu yma cofiodd y plant y gwybodaeth allweddol megis i gynnwys cyfarwyddiadau, cymeriadau a golygfeydd. Ymhellach, yn ystod unrhyw wersi trafod/mynegi barn (e.e. trafod am y broblem sbwriel yn lleol a byd-eang) roedd ofyn cwestiynau'n annog mwy o drafod neu ymestyn sgysiau. Roedd hwn yn fuddiol i'r plant ymarfer geirfa mynegi barn fel 'yn fy marn i' ac iddyn nhw drafod topig mewn manylder. Hefyd, mae cwestiynu'n ddull defnyddiol oherwydd mae modd gwahaniaethu'r cwestiynau e.e. edrych am esboniadau manwl o'r gallu uwch neu gynnig cwestiynau heriol, serch hyn, mae modd symleiddio cwestiynau i'r grŵp gallu is.
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Dysgais am bwysigrwydd AagD i ddatblygiad plant, megis mae'n galluogi'r athrawes i baratoi ar gyfer gwersi'r dyfodol a chadw cofnod o

	gynnydd y disgyblion. Hefyd, deallir bod asesu parhaus yn elfen graidd o addysgu, felly fel rhan o fy ymarfer dysgu proffesiynol sicrheir gwirio dealltwriaeth disgyblion yn rheolaidd er lles eu haddysg. I grynhoi, wrth gyflawni'r astudiaeth yma trawsnewidiwyd fy ngwybodaeth bersonol o addysgeg AagD a chwestiynu'n benodol, a hefyd trawsnewidiwyd fy ymarfer dysgu proffesiynol.
Beth nesaf?	O hyn ymlaen byddaf yn defnyddio strategaethau AagD yn rheolaidd i asesu cynnydd a datblygiad dysgwyr. Byddaf yn defnyddio'r strategaeth cwestiynu yn benodol, oherwydd sylweddolais dyna sut asesais gynnydd a dealltwriaeth y plant yn well.

Templed Profiad Proffesiynol 2:	
Safon Addysgeg	Profiadau dysgu cyfunol
Beth wnaethoch chi a pham?	Ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd pob gwrs gofynnais am farn y plant am y gwaith i sicrhau dealltwriaeth. Trwy gydol yr wythnos onglau gofynnais yn gyson am sut maent yn dod ymlaen gyda'r gwaith, oherwydd roedden amlwg nad oedd pawb yn hyderus gyda'r topig. Defnyddiais strategaethau fel pen ar y ddesg a bodiau i fyny, sgôr allan o 10 ac emojis. Roedd barn a theimladau'r plant yn rhan fawr o fy nghynllunio. Gwelodd y plant anawsterau yn ystod yr wythnos onglau, felly roedden bwysig i mi cadw draw o wersi yn eistedd wrth y bwrdd yn cwblhau llyfryn. Cynlluniais wers lle'r oedd nifer o weithgareddau a gemau amrywiol yn gysylltiedig i'r thema onglau er mwyn iddynt ddeall y topig yn well. Defnyddiais dap ar fyrddau gwyn bach iddyn nhw fesur, roedd cardiau amrywiol gydag onglau ac roedd rhaid i'r plant mesur a llunio'r ongl, yna roedd rhaid i blant ysgrifennu eu henwau a mesur yr onglau amrywiol. Mae ymchwili yn dangos y gall defnyddio gemau wrth addysgu helpu i gynyddu cyfranogiad disgyblion, meithrin dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac ysgogi dysgwyr i fentro. Hefyd, gall gemau helpu i guddio dysgu sgiliau hanfodol a heriol y gall rhai plant eu gwrthsefyll. Yn lle eistedd pawb wrth eu desgiau sy'n creu amgylchedd ffurfiol, rhoddais y plant o fewn grwpiau gallu cymysg yn gwneud cylchdroed o weithgareddau o amgylch y dosbarth. Roedd rhai plant ar y llawr, tu allan ac yn y coridor. Rhoddodd hyn llai o straen a phwysau ar y plant a gwnaethon nhw fwynhau'r gweithgareddau sydd wedi arwain at well dealltwriaeth o'r topig. Creda llawer o ymchwilwyr gall newid yr amgylchedd ffisegol arwain at newid yn awyrgylch yr ystafell ac agwedd gyffredinol y plant.
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Roedd y profiad yma'n allweddol ar gyfer adnabod ffurf gorau o addysgu disgyblion yn Gyfnod Allweddol 2. Dysgais am y pwysigrwydd o greu amgylchedd cefnogol i helpu plant datblygu. Ymhellach, dysgais am bwysigrwydd amrywio'r amgylchedd dysgu megis defnyddio'r coridor ac ardaloedd gwahanol o fewn y dosbarth i gynnal brwdfrydedd.
Beth nesaf?	O ganlyniad i'r profiad yma byddaf yn defnyddio mannau amrywiol o fewn yr ystafell dosbarth, ardal allanol a choridor i'r plant profi amgylcheddau amrywiol a phriodol i gynorthwyo ei gilydd.

Templed Profiad Proffesiynol 3	
Safon Addysgeg	Cyd-destunau dilys bywyd go iawn
Beth wnaethoch chi a pham?	Cysylltir y wers yn berffaith gyda'r diben i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, oherwydd bwriad y wers oedd denu sylw'r plant i'r broblem sbwriel yn fyd-eang ac yn lleol. I gychwyn y wers dangosais lun o'r 'Great Atlantic Garbage Patch' i synnu'r plant a gwnaeth hyn sbarduno trafodaeth enfawr am y bywyd gwyllt, cyflwr y dŵr, a chemegau. Gofynnodd y plant cwestiynau megis 'sut bydd hyn yn effeithio pobl?' a 'sut ffurfiodd e?'. Roedd yr holl sylwadau, cwestiynau ac awgrymiadau'n wych i glywed oherwydd roedden nhw'n gall, clyfar ac aeddfed. Ymhellach, roedden diddorol i weld y plant swil a thawel yn cymryd rhan. Yna, dangosais luniau o draethau lleol llawn sbwriel a theimlon nhw'n gryfach dros y mater. Cynigodd y plant llawer o syniadau i helpu'r broblem fel cymuned ac fel dosbarth. Dangosodd hyn eu hymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned a'u hawydd i edrych ar ôl ein hamgylchedd. Y plant yw'r dyfodol, a dyna pam ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r wybodaeth iddynt. Trwy ddechrau mor gynnar â'r ysgol gynradd, bydd addysg amgylcheddol yn siapio meddylfryd plant ac yn eu gwneud yn ymwybodol a chyfrifol o'r amgylchedd. Bydd hynny'n eu hysbrydoli i wneud penderfyniadau da er lles y blaned. Mae ychwanegu testunau o fywyd go iawn yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu, dyma ffordd gall y plant uniaethu gyda thopig a chynnal brwdfrydedd. Noda Cwricwlwm i Gymru dylai athrawon defnyddio cyd-destunau go-iawn fel rhan o'r dysgu, ac wrth drafod am y problemau sbwriel yn wynebu'r byd a'r ardal leol mae'n gwthio meddyliau'r dysgwyr tu hwnt i giât yr ysgol. Nodir Safonau SAC dylai darpar-athrawon defnyddio cyd-destunau go iawn i ehangu a chyfoethogi profiad diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol y dysgwr. Prif fwriad y dasg oedd denu sylw'r plant at bwysigrwydd edrych ar ôl yr amgylchedd. Dysgodd y plant i edrych ar ôl ein byd gan fod yr amgylchedd yn hynod o bwysig, sydd wedi cynyddu eu diddordeb yn y pwnc daearyddiaeth.

Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Prif fwriad y dasg oedd annog y plant i ystyried nid dim ond y broblem sbwriel ar draws y byd, ond y broblem sbwriel yn lleol. Dangosais luniau a chlipiau fideo i synnu'r plant ac i arwain at drafodaethau. Arweiniodd hyn at nifer o farnau cryf a'r awydd i helpu. Felly, dysgais sut gall sbardun fel llun neu glip fideo dechrau cyfres o drafodaethau, barnau amrywiol a dadlau. Ymhellach, dysgais am sut gall arddangos sefyllfa go iawn cyfrannu at blant yn rhannu barnau a meddyliau'n haws. Dysgais hefyd bod cysylltu problem fyd-eang i'r ardal leol yn achosi fwy o angerdd dros y sefyllfa a brwdfrydedd. Dysgodd y plant i edrych ar ôl ein byd gan fod yr amgylchedd yn hynod o bwysig.
Beth nesaf?	O ganlyniad i'r profiad yma byddai'n cynnwys mwy o elfennau o drafod a mynegi barn am gyd-destunau bywyd go-iawn yn fy ngwersi, oherwydd y buddion megis cynyddu brwdfrydedd, ffocws a diddordeb. Er mwyn gwthio'r wers ymhellach tro nesaf byddai'n dosbarthu'r gliniaduron er mwyn i'r plant ymchwilio i erthyglau a ffeithiau am y broblem sbwriel ar draws y byd, ac annog iddynt gynllunio rhywfath o araith neu gyflwyniad. Gwers arall bydd creu ymgyrch i wella problem sbwriel yn yr ardal leol ac o bosib mynd ar drip ar lan y môr i wneud 'beach clean'.

Templed Profiad Proffesiynol 4	
Safon Addysgeg	Themâu traws-gwricwlaidd
Beth wnaethoch chi a pham?	Cynhaliais brosiect gwyddoniaeth am y gylchred ddŵr dros ddiwrnod ysgol yn lle dros gyfres o wersi amrywiol. Roedd nifer o feysydd dysgu a phrofiad (MDPh) gwahanol yn cysylltu i'r prosiect gwyddoniaeth y gylchred ddŵr. Mae addysgu trawsgwricwlaidd, yn ffordd effeithiol o ddysgu sgiliau datrys problemau trosglwyddadwy i ddisgyblion, rhoi ystyr byd go-iawn i wersi, a chynyddu ymgysylltiad. Y prif MDPh yn amlwg oedd gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae gwyddoniaeth darparu nifer o sgiliau hanfodol i blant megis ymchwilio, chwilfrydedd ac arbrofi. Mae gwyddoniaeth yn rhan o'n bywyd dydd i ddydd ac mae deall gwyddoniaeth yn helpu plant i werthfawrogi ac uniaethu â'r byd o'u cwmpas. Roedd cyfle i'r plant gwneud arbrawf nad oedden nhw wedi ceisio o'r blaen, felly profiad newydd a chyfle i fod yn chwilfrydig. Cychwynnais y wers gyda thrafodaeth am y gylchred ddŵr ac esboniais y derminoleg newydd a heriol iddyn nhw. O ganlyniad i'r trafodaethau dosbarth a grwpiau, mynegi barn ac esboniadau cysylltir i'r maes dysgu a phrofiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Ar gam gynnydd 3 disgwylir i'r plant mewn trafodaeth i wrando'n ofalus gan ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol a'r gallu i siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy. Ymhellach, roedd cysylltiad agos at y dyniaethau wrth drafod am dywydd a thirweddau. Ac wrth iddynt wneud casgliad i'r arbrawf roedd elfen fathemategol wrth fesur y cyfaint o ddŵr oedd wedi anweddi. Hefyd, cyflwynais lawer o wybodaeth gan ddefnyddio technoleg. Dangosais ddiagramau syml a chymhleth ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a modelais sut i osod yr arbrawf a chamau'r arbrawf ar ffurf Tiktok sy'n gysylltiedig i'r cymhwysedd digidol. Defnyddiais Padlet i wirio dealltwriaeth y plant o'r eirfa dysgon nhw e.e. anweddiad, cyddwysiad a dyodiad. Dyma dechneg ddefnyddiol iawn, oherwydd roedd e'n feddalwedd anhysbys, felly roedd y plant mwy swil yn barod i ateb. Hefyd, dyma raglen ddefnyddiol iawn i gael yr atebion yn ymddangos ar y bwrdd rhyngweithiol i annog balchder yn eu hatebion.

Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Gwnes i gynnal y prosiect gwyddoniaeth trwy gydol diwrnod ysgol. Dysgais does dim rhaid cael cyfres o wersi dros wythnos, mis neu dymor yn unig mae modd cynnal dilyniant o wersi bach yn gysylltiedig i'r un topig a nifer o themâu trawsgwricwlaidd dros ddiwrnod. Mwynhaodd y plant y newid yn nhrefn y dydd sydd wedi cadw nhw'n ar ddihun a chynnal brwdfrydedd. O ganlyniad i'r meysydd dysgu a phrofiad amrywiol roedd y plant yn frwdfrydig i ddysgu ac roedd rhyw bwnc a oedd yn eu diddori.
Beth nesaf?	Yn y dyfodol byddai'n sicrhau fy mod i'n cynllunio sesiynau trawsgwricwlaidd trwy ddilyn canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru er lles y plant.

Geirfa: 2001

Rhan 2

Cyflwyniad

Bwriad yr aseiniad yw adfyfrio'n feirniadol ar gynnydd wrth gynllunio, paratoi ac addysgu gwersi sy'n ymgorffori egwyddorion pedagogaidd. Yn ystod lleoliad ysgol cagrir tystiolaeth am asesu ar gyfer dysgu (AagD), profiadau dysgu cyfunol, cyd-destunau bywyd go-iawn a themâu trawsgwricwlaidd ar waith yn yr ystafell dosbarth. Gwnes i hyn trwy arsylwi ymarfer fy mentor dosbarth a threialu strategaethau fy hun. Dewisir i ffocysu ar AagD fel maes i mi ddatblygu, oherwydd maent yn faes o bwysigrwydd cynyddol i addysg gynradd ar hyn o bryd. Ymhellach, dewisir AagD achos maent yn greiddiol i Gwricwlwm i Gymru, ac awgryma Llywodraeth Cymru (2020) asesu yw'r allwedd i gefnogi dysgu dwfn. Wrth ddefnyddio strategaethau AagD mae modd nodi a oes angen i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu neu dderbyn cymorth pellach, a beth yw'r camau nesaf ar gyfer cynnydd parhaol (Llywodraeth Cymru, 2020). Yn amlwg, mae AagD yn chwarae rôl flaenllaw yn addysg plant gan fod llawer o ddigwyddiadau yn y dosbarth sy'n galluogi athrawon i gasglu gwybodaeth am y dysgwyr, drwy holi cwestiynau, arsylwi, darparu adborth ac archwilio gwaith ysgrifenedig (Grŵp Diwygio Asesu, 2006). Trwy ddefnyddio AagD gellir defnyddio'r wybodaeth a chasglwyd ar unwaith i ddarparu cymorth i'r dysgwyr, neu ei chadw i gynllunio cyfleoedd dysgu yn y dyfodol (Grŵp Diwygio Asesu, 2006). Dyma pam hoffwn ddatblygu'r maes yma, achos yn amlwg maent yn ddull pwysig i alluogi'r plant gwneud cynnydd dros amser. Yn yr aseiniad yma bwriedir adfyfrio'n feirniadol ar ei effaith ar ddysgwyr, sut i ddatblygu fy arfer personol a chysylltu efo llenyddiaeth ddilys. Hefyd, trafodir y cryfderau a chyfyngiadau AagD ac ystyrier barnau amrywiol. Mewn unrhyw gyd-destun mae adfyfrio'n rhan hanfodol o ddysgu a datblygu (Burge, 2013). Adolygir ar ymarfer, profiadau ac effeithiolrwydd personol yn addysg i symud ymlaen ac yna penderfynu a oes ffordd well, neu fwy effeithlon o'i wneud yn y dyfodol (Burge, 2013).

Adolygiad llenyddiaeth

Yn yr adran yma bwriedir trafod beth yw AagD gan dangos ymwybyddiaeth o'r cryfderau a chyfyngiadau a'i chysylltu gyda phrofiadau personol. Rhestra Llywodraeth Cymru (2020) y prif swyddogaethau asesu sef cefnogi dysgwyr yn barhaus, llwyddo i wneud cynnydd dros amser a myfyrio ar arferion. Y pedwar elfen o AagD yw cwestiynu, meini-prawf-llwyddiant, adborth a hunanasesu/asesu cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2010a). Er mynna Llywodraeth Cymru (2010b) bod pedwar strategaeth AagD, dadleua Prifysgol Cambridge (2015) mae un ychwanegol sef asesu crynodol, ond dyma osodiad dadleuol achos fel arfer ystyrir asesu crynodol fel agwedd ar wahân.

Gŵyr pawb fod mathau gwahanol o asesu; crynodol sef gwirio'r hyn a ddysgwyd trwy arholiadau a phroffion, a ffurfiannol sef asesu'n barhaol i wneud cynnydd a gwella'r dysgu (Zook, 2016). Mynna Wagner (2015) gall y wybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddio asesiadau crynodol megis profion helpu addysgwyr i wneud penderfyniadau ar lefelau dysgwyr (Wagner, 2015). I'r gwrthwyneb, cred Dabell (2018) yw bod asesiadau crynodol yn ddull beirniadol a chystadleuol, yn ogystal â phroses lle maent yn coladu gwybodaeth i gynhyrchu gradd, dyfarniad neu lefel. Cytuna Black et al. (2004) a dywed bod asesu crynodol yn cael effaith 'niweidiol' ar ddysgwyr ac addysgwyr, oherwydd canolbwyntir ar allu academiaidd plentyn. Ond, ar y llaw arall anelir AagD yn bwrpasol tuag at ddatblygiad y plentyn (Black et al., 2004). Ar leoliad ysgol sylweddolaf ar yr effaith negyddol cafwyd profion ar blant cyfnod allweddol 2, ond wrth ddefnyddio strategaethau AagD yn rheolaidd roeddent yn hyderus yn ateb cwestiynau, hapus i ddilyn meini prawf llwyddiant ac awyddus i dderbyn adborth. Ond, noda'r Grŵp Diwygio Asesu (2006) dylai'r gweithdrefnau asesu crynodol gyd-fynd â gweithdrefnau asesu ffurfiannol, a dylent fod yn dryloyw fel gall pawb sydd ynghlwm ar asesu ymddiried yn y canlyniadau. Mae corff helaeth o lenyddiaeth wedi ymchwilio i AagD a noda Llywodraeth Cymru (2010a) ei bod yn strategaeth yn ymwneud â darganfod lle mae dysgwyr yn eu dysgu, beth sydd rhaid anelu at ac yn bwysicaf sut i wneud cynnydd dros amser. Yn gysylltiedig, mynna Wiliam (dyfynnwyd yn Education Scotland, 2016) bod asesu ffurfiannol yn hanfodol i athrawon casglu gwybodaeth am gyflawniad y dysgwr i lunio ac addasu'r dysgu i wella ansawdd eu haddysg a sicrhau cynnydd. Cefnogir hyn gan Heritage (2010) a honna'r ffordd fwyaf llwyddiannus o weithredu asesiadau ffurfiannol yw, yn gyntaf deall y bwriad (megis targed penodol), wedyn nodi'r lefel cyfredol y dysgwyr ac yna cynllunio'r camau nesaf i gau'r bwlch. Dyma strategaeth lwyddiannus defnyddiais ar leoliad ysgol i sicrhau cynnydd. Edrychais ar dargedau presennol y dysgwyr a thrafodais gyda fy mentor dosbarth i gynllunio sut i symud ymlaen. Fodd bynnag, mae rhaid ystyried gwerth pob dull posib a daw Bloom, (1969, dyfynnwyd gan Ninomiya, 2016) i'r casgliad bod asesu ffurfiannol yw darparu adborth cefnogol ac awgrymiadau cadarnhaol yn rheolaidd, ond defnyddiwyd asesu crynodol i lefelu gwaith dysgwyr ar ddiwedd cyfnod. Ella bydd cyfuniad o'r asesiadau'n strategaeth lwyddiannus. At hyn, dengys astudiaeth Voelkel (2013) pan rhyngweithodd y dysgwyr gyda'r deunydd (mesurir gan arholiadau) yn ystyrion gwellhaodd y dysgu. Fe wnaeth yr adborth adeiladol ar ôl yr arholiadau alluogi'r dysgwyr i gymryd sylw o'u targedau a mynd ati i weithio arnynt (Voelkel, 2013). Felly, dyma enghraifft lwyddiannus o gyfuno asesu ffurfiannol a chrynodol.

Mae'r rhan fwyaf o ymchwil yn cefnogi'r defnydd o strategaethau AagD yn y dosbarth er mwyn hwyluso dysgu'r dysgwyr. Yn ôl astudiaeth gan Estyn (2018), codwyd safonau yn

Ysgol Gynradd Gaer wrth ychwanegu strategaethau AagD i'r gwersi. Defnyddir gweithgareddau fel hetiau lliw i hunanasesu ac asesu cyfoedion i feithrin y sgil o esbonio syniadau a mynegi barn i'w cyfoedion (Estyn, 2018). Yn gysylltiedig, un o gryfderau AagD yw mai'n galluogi'r dysgwyr i fod yn annibynnol wrth adfyfrio a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu (Grŵp Diwygio Asesu, 2002). Dyna un o brif fwriadau Llywodraeth Cymru (2020) wrth roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, magu dysgwyr annibynnol a chydwybodol. I wneud hyn ar leoliad roedd y dysgwyr yn marcio eu gwaith neu waith ffrind trwy ddefnyddio'r lliw gwyrdd (yr hyn sydd angen gwella) a lliw pinc (yr hyn sy'n dda). Yn symud ymlaen yn fy arfer defnyddir y strategaeth yma i'r dysgwyr fod ynghlwm ar broses asesu. Pwysleisia Dauncey (2017) yn ei ymchwil y pwysigrwydd o AagD i ddatblygiad a dilyniant dysgwyr. Ar y cyfan, awgrymir dilyniant dysgu ei bod yn ddilyniant llinol, ond mae rhaid cyfaddef nid yw dysgu yn golygu cynnydd pob tro, mae cyfnodau lle bydd dysgwyr yn mynd yn aros lle maen nhw yn lle symud ymlaen (Heritage, 2008). Cefnoga Donaldson (2015) y datganiad yma a chreda bod dysgu yn daith unigryw i bob dysgwr, gydag adegau o lonydd a chyfnodau o gynnydd. Atgyfnertha Dauncey (2017) y cryfder bod AagD yn helpu'r athrawon i gynllunio a pharatoi ar gyfer gwersi'r dyfodol trwy nodi os oes angen ail-ymweld ag agwedd penodol neu symud ymlaen, yn ogystal â hyn mae'n rhoi'r cyfle i athrawon cadw cofnod o gynnydd y dysgwyr. Un yr un modd, sylweddola Greenstein (2010) bod athrawon llwyddiannus yn casglu gwybodaeth am ddiddordebau, cynnydd ac anghenion y dysgwyr a'u hystyried wrth wneud addasiadau perthnasol i'r dysgu. Cryfder ychwanegol, yw anelir AagD yn bwrpasol tuag at y dysgwyr ac maent yn chwarae rôl flaenllaw yn y broses, sy'n gysylltiedig i bwysigrwydd llais y dysgwyr a phwysleisir yn Gwricwlwm i Gymru. Yn ategu at hyn, dywed NFER (2018) i AagD fod yn effeithiol, mae'n bwysig sicrhau bod y dysgwyr yn deall yr hyn sydd angen i ddatblygu. Daw Donaldson (2015) i'r casgliad bod angen cynnwys plant yn y broses asesu i'w annog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae'r awgrymiadau ysbrydoledig yma wedi argymhell mi i drafod unrhyw adborth ar y cyd gyda'r dosbarth, grwpiau neu unigolion i gynnwys nhw yn y broses asesu. Dyma strategaethau byddaf yn defnyddio o hyn ymlaen, oherwydd roedd y plant yn fwy ymwybodol o bwrpas y dasg a'u mannau i wella yn cymharu â nodi targedau ar bapur. Yn gysylltiedig, mae cynnwys dysgwyr yn yr asesu ac annog iddynt feddwl fel athrawon (meddwl yn weithredol am eu man cychwyn, ble maen nhw'n mynd a sut i gyrraedd) yn gryfder i AagD, achos mae'n magu hyder yn yr hyn mae disgwyl iddynt ddysgu ac i ba safon (Prifysgol Cambridge, 2015). Ymhellach, mae hyrwyddo annibyniaeth yn lleihau'r baich gwaith athrawon, ond trwy feithrin sgiliau bywyd fel annibyniaeth a chymryd cyfrifoldeb, a sicrhau cynnydd dysgwyr (GWE, 2019). Atgyfnertha Greenstein (2010) nad yw AagD yn canolbwyntio ar allu'r athrawon i gyflwyno gwybodaeth ond, canolbwyntir ar sut derbyniwyd y wybodaeth gan ddysgwyr a sut defnyddiwyd i wella eu dysgu, sydd eto'n magu dysgwyr annibynnol. Wrth dynnu tua'r terfyn, mae'n bwysig

defnyddir strategaethau AagD trwy gydol y dysgu i sicrhau bod y dysgwyr ar y trywydd iawn a'u hannog i wella'n barhaus, a ni ddylai asesu digwydd ar ddiwedd gwers neu dymor yn unig (Llywodraeth Cymru, 2010b). Yn dilyn hyn, ar brofiad dysgu roedden flaenoriaeth i mi asesu'r plant trwy gydol y wers trwy ddarllen eu gwaith, cywiro gwallau a darparu adborth ar lafar. O ganlyniad i hyn, gweithiodd y plant ar eu targedau'n syth ac roedd cyfle i mi addasu'r wers megis symleiddio, ail-esbonio neu gyflwyno her ychwanegol er lles nhw. Bydd hwn yn parhau i fod yn bwysig i mi wrth asesu dysgwyr yn y dyfodol. Yn amlwg mae AagD yn ddull llawn gryfderau ac yn syml dywed Jones (2005) bod strategaethau AagD llwyddiannus yn arwain at gynnydd parhaus.

Yr agweddau o AagD canolbwyntir arno yn yr adran yma yw cwestiynu ac adborth. Casglwyd llawer o wybodaeth trwy arsylwi, yn ogystal â threialu strategaethau amrywiol fy hun. Yn ôl Hall (2016) defnyddir cwestiynu gan athrawon i ddarganfod yr hyn mae dysgwyr eisoes gwybod, yn sylweddoli'r bylchau, ac yn cynllunio i gau'r bwlch. Yn ogystal â hyn noda Hall (2016) a Llywodraeth Cymru (2010b) un o fanteision cwestiynu yw'r ffaith gellir gofyn cwestiynau o safon uchel i ysgogi'r dysgwyr i archwilio syniadau a chreu cysylltiadau. Yn ystod fy mhrofiad dysgu roedd cwestiynu'n rhan naturiol o'r addysgu a defnyddir yn ystod cyflwyniadau gwersi, gydag unigolion a grwpiau, ac ar ddiwedd gwers. Ymhellach, defnyddiais nifer o strategaethau megis Kahoot, gofyn cwestiynau agored a chaeedig, byrddau gwyn, ffonio ffrind a rhaglen Padlet er mwyn sicrhau dealltwriaeth y dysgwyr. Roedden bwysig i mi amrywio fy strategaethau cwestiynu i gynnal diddordeb y plant. Mynna Strehlke, Wegner a Minnaert (2013) bod mabwysiadu nifer o strategaethau'n effeithio ar frwdfrydedd y dysgwyr mewn ffordd gadarnhaol ac felly'n arwain at ddysgu dwfn. I asesu'r dasg ysgrifennu sgript yn Saesneg gofynnais gwestiynau amrywiol i brofi dealltwriaeth y dysgwyr ac i ail-ymweld â dysgu'r wythnos flaenorol (ysgrifennu sgript Cymraeg). O ganlyniad i'r cwestiynu yma cofiodd y dysgwyr y wybodaeth allweddol megis i gynnwys cyfarwyddiadau, cymeriadau a golygfeydd yn eu sgriptiau ac felly cyflawnon nhw waith i safon uchel. Cytuna Cotton (2001, dyfynnwyd gan Simmonds, 2017) ei fod yn gryfder i ddefnyddio cwestiynau caeedig i adolygu dysgu blaenorol. Ymhellach, yn ystod unrhyw wersi trafod/mynegi barn (megis trafod am y broblem sbwriel yn lleol a byd-eang- gwelir atodiad 1) roedd ofyn cwestiynau'n annog mwy o drafod ac ymestyn sgysiau. Darparir cwestiynau agored y rhyddid i ddysgwyr feddwl yn ddyfnach a mynegi barn (Simmonds, 2017). Felly, nid yw cwestiynu'n golygu gwirio atebion yn unig, ond yn fwy pwysig, i wrando ar atebion i ddeall ble maent yn eu dysgu a chynllunio ar gyfer gwersi'r dyfodol (Clarke, 2020). Hefyd, mae cwestiynu'n ddull defnyddiol i wahaniaethu (Llywodraeth Cymru, 2010b). Ar leoliad ysgol gofynnais gwestiynau heriol ac edrychais am esboniadau manwl o'r gallu uwch, serch hyn, gofynnais gwestiynau mwy syml i'r grŵp gallu is. Oblegid i hyn mae rhaid

ystyried yr heriau. Diddorol oedd darllen dywed Paramore (2017, dyfynnwyd yn Doherty, 2017) bod patrwm o anghydbwysedd gwestiynu a gorddibyniaeth ar gwestiynau dwyn i gof yn ddosbarthiadau, felly nodir gwybodaeth asesu gyfyngedig. O ganlyniad i'r gosodiad dadleuol yma yn symud ymlaen yn fy arfer byddaf yn cynllunio fy nghwestiynau o flaenllaw er mwyn ymestyn ymatebion y plant a chodi lefel yr her, yn hytrach na ofyn cwestiynau syml a dibwrpas. Her ychwanegol yn ôl Llywodraeth Cymru (2010b) yw'r ffaith bod rhai dysgwyr yn swil ac felly'n anhyderus yn ateb cwestiynau, felly nad oes modd asesu nhw. I oresgyn hyn, penderfyna Hall (2016) bod adeiladu hyder ac ymdrin ag atebion yn effeithiol yn ddulliau defnyddiol fel bod lefel yr her yn codi yn lle lefel y pwysau a straen. Oblegid i hyn byddaf yn dilyn canllawiau Coe et al. (2020) trwy greu amgylchedd croesawgar a chadarnhaol wrth hyrwyddo empathi, parch ac osgoi sylwadau negyddol.

Gŵyr pawb fod adborth yn rhan allweddol o AagD, a dylai dysgwyr ddeall yr adborth a gallu gweithredu ar y sylwadau er mwyn eu datblygu (Weurlander, 2012). Creda Bruner bod addysgwyr yn chwarae rôl hanfodol yn cynorthwyo dysgu plant (1978, dyfynnwyd yn McLeod, 2019). Gellir cytuno dylai adborth gan athrawon darparu gwybodaeth am yr hyn mae'r dysgwyr yn llwyddo i wneud a phethau sydd angen iddynt ddatblygu (Coe et al, 2020). Cytuna Llywodraeth Cymru (2010b) a NFER (2018), cafwyd adborth ar ffurf lefelau neu farciau effaith negyddol ar ddysgwyr, ac yn gyffredinol mae adborth ar lafar yn fwy effeithiol nag ysgrifenedig. Gwelais yn ystod leoliad ysgol roedd y plant yn bryderus ac o dan straen wrth gwblhau profion. Yn ogystal â hyn roedden nhw wedi digalonni a siomedig pryd derbyniwyd marciau profion yn ôl. Yn yr un modd, yn astudiaeth gan DeLuca et al. (2018) i farn a defnydd dysgwyr o strategaethau AagD, dywedon nhw roedd derbyn adborth o athrawon ar lafar yn y strategaeth fwyaf defnyddiol ac effeithiol, oherwydd darparir strwythur clir ac yn hwyluso proses asesu (DeLuca et al., 2018). Cytuna Higgins (2000) a phwysleisia er mwyn defnyddio adborth yn effeithiol mae rhaid trafod gyda'r dysgwyr i sicrhau ei bod yn deall. Esiaml lwyddiannus o hyn yw adolygiad Estyn (2019) o Ysgol Treganna, maent yn cynnwys mewnbwn y dysgwyr yn eu cynllunio i godi eu hunanhyder. Yn yr ysgol darparais adborth cefnogol ac adeiladol ar lafar yn barhaol er mwyn i'r plant gwybod lle maen nhw yn eu dysgu, codi hyder a chynnal brwdfrydedd. Yn gysylltiedig, mae Van-den-Bergh et al. (2014) yn cyfiawnhau bod defnyddio adborth adeiladol a chefnogol trwy gydol gwersi yn gwella arfer y dysgwyr yn ogystal â'u cymell. Tynnu sylw arbennig at y ffaith dylai adborth fod yn adeiladol a sensitif, achos mae gan unrhyw asesiad effaith emosiynol ar ddysgwyr (Grŵp Diwygio Asesu, 2002). Yn gysylltiedig, nodais ar ddiwedd pob darn o waith y pethau da a mannau i wella ar ffurf seren a dymuned (gwelir atodiad 2) er mwyn i'r plant gwybod sut i ddatblygu a gwneud cynnydd. Ymhellach, awgryma Black et al. (2004) gall adborth gan gyd-ddisgyblion bod yn strategaeth lwyddiannus oherwydd derbyniwyd sylwadau yn well gan

ei gilydd na fyddent gan athrawon. Ymhelaethodd astudiaeth DeLuca et al. (2018) ar y buddion o ddarparu a derbyn adborth gan gyd-ddisgyblion i gefnogi dysgu, megis lleihau anfanteision y dull fel diffyg manylder.

Oblegid hyn, mae rhaid ystyried y cyfyngiadau a gwrthddadleuon i AagD. Ysgrifenna Marsh (2007) ddadansoddiad beirniadol am AagD ar waith yn y dosbarth, dywed mai'n amlwg nad yw addysgwyr yn defnyddio asesu ffurfiannol yn gyson. Mae hyn yn adleisio datganiad Black a Wiliam (1998) lle ysgrifennwyd am "dlodi ymarfer", a dyma ran bwysig o hanes ddatblygiad AagD. Un esboniad am hyn yw brofiad athrawon a'r ffaith magwyd i flaenoriaethu a sicrhau graddio crynodynol a chanlyniadau da, trwy ddulliau fel bwydo gwybodaeth i'r dysgwyr i gofio ar gyfer arholiadau a phroffion (Marsh, 2007). Nid oes rhaid edrych yn bell i weld enghreifftiau o hyn, mae Profion Asesu Statudol yn ysgol gynradd a chanlyniadau TGAU yn dal i fod ym mlaenoriaeth i lawer o ysgolion. Er hyn, o ganlyniad i newidiadau megis Cwricwlwm i Gymru mae symudiad o lefelu a graddio a ffocws ar ddatblygiad unigryw a chynnydd y plentyn (Llywodraeth Cymru, 2020). Serch hyn, dywed Richardson (2012) bod awdurdodau addysg yn rhoi pwysau ar ysgolion i sicrhau canlyniadau da ar draws yr ysgol, gan anwybyddu'r pwysigrwydd o sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael ei gwrdd â'i ddatblygu. I'r gwrthwyneb, nod Gwricwlwm i Gymru yw canolbwyntio ar gynnydd unigryw dysgwyr ar hyd continwrm dysgu (Llywodraeth Cymru, 2020). Yn ogystal â sicrhau cyfle teg a chyfartal i bawb cyrraedd eu potensial ac i ddatblygu mewn amgylchedd cefnogol yn bwysig i Gwricwlwm i Gymru (Hopwood a Defis, 2017). Cyfyngiad arall yw dadleua Dunn a Mulvenon (2009) bod does dim digon o dystiolaeth sy'n bodoli i gefnogi'r arferion llwyddiannus o AagD. Gellid dadlau bod y diffyg ffynonellau yn lleihau dilysrwydd a dibynadwyedd astudiaethau sy'n mynnu bod AagD yn cael effaith positif ar ddysgwyr (Dunn a Mulvenon, 2009).

Er gwaethaf, prif fwriad AagD yw cynnig gwybodaeth i wneud penderfyniadau am y ffordd orau i symud ar hyd y continwrm dysgu ac addysgu'r athrawon (Williams, 2017). Dylid ei ddefnyddio er lles y dysgwyr gan alluogi i addysgwyr i addasu'r gwersi a chefnogi eu cynnydd (Williams, 2017). Yn symud ymlaen yn fy arfer byddaf yn defnyddio cynghorion o'r adolygiaeth llenyddiaeth megis defnyddio'r strategaethau AagD yn rheolaidd a sicrhau bod y plant ynghlwm a'r broses asesu er lles y dysgwyr.

Casgliad

Bwriedir crynhoi'r hyn a nodir yn yr adolygiad llenyddiaeth a fy mhrofiadau personol gan lunio casgliad. Nod yr aseiniad yma oedd adfyfrio'n feirniadol ar gynnydd wrth gynllunio,

paratoi ac addysgu gwersi sy'n ymgorffori egwyddorion pedagogaid. I grynhoi, er ystyrir y cyfyngiadau awgrymir digon o ffynonellau bod AagD yn chwarae rhan flaenllaw yn addysg plant ac yn ddymunol i'r dysgwyr gan eu galluogi i feddwl yn ddwfn, yn ogystal â deall sut i symud ymlaen i wneud cynnydd (Green, 2017). Cysylltir i ddatganiad Coe et al. (2020) lle dywed eu bod yn bwysig i ysgogi meddwl yn ddwfn trwy helpu'r dysgwyr i gynllunio, rheoleiddio a monitro eu dysgu i symud ymlaen yn briodol o ddysgu strwythuredig i ddysgu mwy annibynnol. Tynna Jeffery a Woods (1998) sylw at yr effaith negyddol cafwyd arolygon ysgol ac arsylwadau gwersi ar athrawon a chymharu efo effaith profion ar les plant yn lle mwynhau eu plentynod. Canolbwyntia Cwricwlwm i Gymru (2020) ar sut mae'r plant yn ganolog i'r dysgu, felly bydd sefyll yn ôl o asesu dysgwyr ar sail eu sgiliau cofio gwybodaeth a chanolbwyntio ar ddatblygiad unigolion yn gam trawsnewidiol.

Y cam nesaf i mi yw cynnwys y pedwar elfen o AagD yn gyson yn wersi'r dyfodol. O ganlyniad i ysgrifennu'r aseiniad hon, edrychaf ymlaen at ddatblygu fy nefnydd o strategaethau AagD yn fy ngwersi gan fy mod i'n deall ei effaith ar y dysgwyr a'i bwysigrwydd i gynnydd disgyblion. Yn gysylltiedig, mae'r aseiniad wedi dangos mai addysg yn debyg i gylchdro 'Highscope' (2021), lle nid oes disgwyliad i ddysgwyr wneud cynnydd pob tro, ond rôl yr athrawon yw cefnogi dysgu a datblygiad unigol ac mae modd wneud hyn trwy strategaethau AagD. Yn debyg, noda Healy (2011) bod plant yn cyflawni ar adegau amrywiol, gan fod cynnydd pawb yn unigryw a chytunaf. Oblegid i'r canfyddiadau diddorol yn yr aseiniaid fy nharged yw darparu amgylchedd cynhwysol a magu dysgwyr hyderus i fod y gorau gall trwy ddathlu eu gwahaniaethau a thalentau (Hopwood a Defis, 2017). Cysylltir i'r safon SAC sy'n atgyfnerthu dylid arddangos dealltwriaeth am anghenion pob dysgwr wrth gynllunio, paratoi ac addysgu (Llywodraeth Cymru, 2021). Trwy ddarparu amgylchedd cynhwysol i ddysgwyr adeiladu ar eu cryfderau, gweithio ar eu targedau ac arbrofi gyda gwahanol strategaethau AagD bydd cyfle iddynt wneud cynnydd (Hopwood a Defis, 2017). Hefyd, credaf mai addasu arferion addysgu ac asesu yn hanfodol i ddatblygu AagD ymhellach. Yn edrych ymlaen byddaf yn addasu'r ffordd rydw i'n asesu i gynnwys y plant a lleihau defnydd profion. Fel nodir yn y Cwricwlwm i Gymru mae rhaid i ysgolion cefnogi trefniadau asesu sy'n asesu cynnydd y dysgwyr a'r camau nesaf yn ddilyniant dysgu'r dysgwyr, felly dyma darged arall i mi symud ymlaen yn fy ngyrfa (Llywodraeth Cymru, 2020). Ar yr un pryd, dylid datblygu asesiadau crynodedol i fod yn fwy cynhwysol o'r egwyddorion sy'n llywio asesiad ffurfiannol (Marsh, 2006). I gloi, dywed Islam a Musa (2020) trwy ddefnyddio AagD cafwyd dysgwyr eu siapia a'r cyfle i ddatblygu'n ddyddiol a chytunaf.

Cyfeirnod

Black, P. a Wiliam, D. (1998) *Assessment and Classroom Learning*. Llundain: School of Education King's Collage.

Black, P., Lee, C., Harrison, C. a Marshall, B. (2004) *Working Inside the Black Box: Assessment for Learning in the Classroom*. Llundain: Department of Education and Professional Studies.

Burge, T. (2013) *Cognition Through Understanding Self-knowledge, Interlocution, Reasoning, Reflection*. Oxford: Oxford University Press.

Clarke, S. (2020) *Formative Assessment: A Summary*. Ar gael yn: <<https://www.shirleyclarke-education.org/what-is-formative-assessment/>> (Cyrchwyd: 27 Mawrth 2022).

Coe, R., Rauch, C., Kime, S. a Singleton, D. (2020) *Great Teaching Toolkit Evidence Review*. Cambridge: Evidence Based Education.

Dabell, J. (2018) *Re-evaluating the Place for Summative Assessment in the Classroom*. [blog] Ar gael yn: <<https://mathsnoproblem.com/blog/classroom-assessment/summative-assessment-in-the-classroom/>> (Cyrchwyd: 2 Ebrill 2022).

Dauncey, M. (2017) *Asesu Ar Gyfer Dysgu Neu Atebolrwydd?*. Ar gael yn: <https://pigion.wpcomstaging.com/wp-content/uploads/2017/05/assessment-for-learning-orw1.pdf> (Cyrchwyd: 4 Ebrill 2022).

DeLuca, C., Chapman, A., LaPointe-McEwan, D. a Klinger, D. (2018) *Student Perspectives on Assessment for Learning*. Canada: Queen's University.

Doherty, J. (2017) *Skilful Questioning: The Beating Heart Of Good Pedagogy*. Ar gael yn: <<https://impact.chartered.college/article/doherty-skilful-questioning-beating-heart-pedagogy/>> (Cyrchwyd: 21 Mawrth 2022)

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Dunn, K. a Mulvenon, S. (2009) *A Critical Review of Research on Formative Assessment: The Limited Scientific Evidence of the Impact of Formative Assessment in Education*. Arkansas: Practical Assessment, Research & Evaluation.

Education Scotland. (2016) *David Wiliam: Formative Assessment*. [fideo] Ar gael yn: <<https://www.youtube.com/watch?v=sYdVe5O7KBE>> (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2022).

Estyn. (2018) *Asesu ar gyfer Dysgu a Medrau Meddwl*. Ar gael yn: <<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl>> (Cyrchwyd: 26 Mawrth 2022).

Estyn. (2019) *Defnyddio Llais Y Disgybl I Lunio Dysgu*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-llais-y-disgybl-i-lunio-dysgu?_ga=2.244313030.210650784.1607362621-1056387457.1607362621> (Cyrchwyd: 27 Mawrth 2022).

Green, R. (2017) *A Critical Analysis of the Design and Implementation of Formative Assessment*. ERIC.

Greenstein, L. (2010) Chapter 1: The Fundamentals of Formative Assessment. yn: *What Teachers Really Need to Know About Formative Assessment*. Alexandria: ASCD

Grŵp Diwygio Asesu. (2002) *Asesu ar gyfer Dysgu: 10 egwyddor*. ACCAC.

Grŵp Diwygio Asesu. (2006) *Rôl athrawon wrth asesu dysgu*. Ar gael yn: <https://www.aaia.org.uk/storage/medialibrary/o_1d94s1hjq1t247u4v0f66h8.pdf> (Cyrchwyd: 5 Ebrill 2022).

GWE. (2019) *Defnydd Effeithiol o Asesu ar gyfer Dysgu i Leihau Baich Gwaith*. Ar gael yn: <<https://www.gwegogledd.cymru/digwyddiadau/defnydd-effeithiol-o-asesu-ar-gyfer-dysgu-i-leihau-baich-gwaith/>> (Cyrchwyd: 28 Mawrth 2022).

Hall, G. (2016) *The Importance Of Questioning*. Ar gael yn: <<https://garyhall.org.uk/importance-of-questioning.html>> (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2022).

Healy, J. (2011) *Different Learners: Identifying, Preventing, and Treating Your Child's Learning Problems*. Efrog Newydd: Simon and Schuster.

Heritage, M. (2008) *Learning Progressions: Supporting Instruction and Formative Assessment*. Washington DC: Council of Chief State School Officers.

Heritage, M. (2010) *Formative Assessment : Making It Happen in the Classroom*. California: Corwin.

Higgins, R. (2000) *"Be more critical!": Rethinking Assessment Feedback*. School of Cultural Studies; Sheffield Hallam University.

Highscope. (2021) *Active Learning Curriculum*. [blog] HighScope. Ar gael yn: <<https://highscope.org/our-practice/curriculum/>> (Cyrchwyd: 28 Mawrth 2022).

Hopwood, M. a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa. [llawlyfr mewnol].

Islam, M. a Musa, M. (2020) *The Problems That Teachers Face in Applying Formative Assessment in The Classroom*. International Journal of Scientific & Technology Research.

Jeffrey, B. a Woods, P. (1998) *Testing Teachers: The Effect Of School Inspections On Primary Teachers*. Llundain: Falmer Press.

Jones, C. (2005) *Assessment for Learning*. Llundain: Learning and Skills Development Agency.

Llywodraeth Cymru. (2010a) *Pam Y Mae Angen Datblygu Meddwl Ac Asesu Ar Gyfer Dysgu Yn Yr Ystafell Ddosbarth?*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2010b) *Sut I Ddatblygu Meddwl Ac Asesu Ar Gyfer Dysgu Yn Yr Ystafell Ddosbarth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021) *Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth*. PDPA.

Marsh, C. (2006) *Critical Analysis of the Use of Formative Assessment*. Hong Kong: APERA Conference.

Marsh, C. (2007) *A Critical Analysis of the Use of Formative Assessment in Schools*. Efrog Newydd: Educational Research for Policy and Practice.

McLeod, S. (2019) *Bruner - Learning Theory in Education*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/bruner.html> (Cyrchwyd: 28 Mawrth 2022).

NFER. (2018) *Brushing up on assessment: Assessment for learning*. Ar gael yn: <https://www.nfer.ac.uk/media/3094/assessment_for_learning.pdf> (Cyrchwyd: 29 Mawrth 2022).

Ninomiya, S. (2016) *The Possibilities and Limitations of Assessment for Learning: Exploring the Theory of Formative Assessment and the Notion of "Closing the Learning Gap"*. Japan: Wakayama University Education Studies.

Prifysgol Cambridge. (2015) *Getting started with Assessment for Learning*. Ar gael yn: <<https://cambridge-community.org.uk/professional-development/gswafl/index.html>> (Cyrchwyd: 27 Mawrth 2022).

Richardson, H. (2012) *Exam Pressure 'Undermining Teacher's Integrity'*. Ar gael yn: <<https://www.bbc.co.uk/news/education-17564311>> (Cyrchwyd: 31 Mawrth 2022).

Simmonds, M. (2017) *The Importance of Questioning*. Ar gael yn: <<https://classteaching.wordpress.com/2017/01/19/the-importance-of-questioning/>> (Cyrchwyd: 25 Mawrth 2022).

Strehlke, F., Wegner, C. a Minnaert, L. (2013) The importance of learning strategies and how the project 'Kolumbus-Kids' promotes them successfully. *European Journal of Science and Mathematics Education*, 1(3).

Van-den-Bergh, L. Ros, A. a Beijaard, D. (2014) *Improving Teacher Feedback During Active Learning: Effects of a Professional Development Program*. American Educational Research Journal.

Voelkel, S. (2013) *Combining the Formative with the Summative: The Development of a Two-stage Online Test to Encourage Engagement and Provide Personal Feedback in Large Classes*. Liverpool: University of Liverpool School of Life Sciences.

Wagner, S. (2015) *Importance of Summative Assessment*. Ar gael yn: <<https://www.naiku.net/naiku-coach/importance-of-summative-assessment/>> (Cyrchwyd: 30 Mawrth 2022).

Weurlander, M. (2012) *Exploring Formative Assessment As A Tool For Learning: Students' Experiences Of Different Methods Of Formative Assessment*. Ar gael yn: <<https://web.a.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=2&sid=31ea8bf4-7a55-47c8-b2b5-89d6d1415b34%40sdc-v-sessmgr01>> (Cyrchwyd: 24 Mawrth 2022).

Williams, K. (2017) *Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Asesu ar gyfer Dysgu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Zook, C. (2017) *Formative Vs. Summative Assessments: What's The Difference?*. Ar gael yn: <<https://www.aeseducation.com/blog/formative-vs.-summative-assessments-what-do-they-mean>> (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2022).

Atodiad

Atodiad 1 – cwestiynau gwers mynegi barn am broblem sbwriel y byd ac ardal leol.



Trafodwch

- Beth yw eich barn chi?
- Ydy hwn yn broblem fawr?
- Pam ydy hwn yn broblem?
- Sut mae modd datrys y broblem yma?
- Beth allwn ni gwneud i helpu?

Atodiad 2 – seren a dymuniad.

